# Cyfrifiad 1991
# Cymru
## Ffurflen Lc ar gyfer Sefydliadau Cyfunol Llongau Ei Mawrhydi neu longau eraill

**At y Rheolwr, y Prif Swyddog Preswyl, y Prif Swyddog Milwrol neu berson arall sydd â gofal sefydliad cyfunol:**

**At y Capten, y Meistr, y Prif Swyddog neu berson arall sydd â gofal llong neu un o Longau Ei Mawrhydi:**

Byddwn yn ddiolchgar am gael eich help wrth gynnal y Cyfrifiad. O dan Ddeddf Cyfrifiadau 1920 mae arnoch rwymedigaeth gyfreithiol i restru enwau'r bobl yn eich sefydliad neu ar eich llong, i ddosbarthu ffurflenni iddynt ac i gasglu'r ffurflenni ar ôl eu llenwi. Mewn sefydliad cyfunol rhaid hefyd i chi lenwi'r panel 'math o sefydliad'. Os gwrthodwch lenwi'r ffurflen hon, neu os rhowch wybodaeth ffug, gall fod rhaid i chi dalu dirwy hyd at £400. Mae'r cyfarwyddiadau sydd gyferbyn yn dweud wrthych beth i'w wneud a dylid eu dilyn yn ofalus.

Mae'r ffurflenni Unigolyn a roddwyd i chi ar gyfer pob person sy'n treulio noson **21-22 Ebrill** yn y sefydliad hwn neu ar fwrdd y llong hon. I'ch helpu wrth ddosbarthu a chasglu'r ffurflenni unigol, darparwyd gofod trosodd i restru'r bobl hynny.

**Caiff yr atebion a roir eu trin yn hollol gyfrinachol a'u defnyddio'n unig i gynhyrchu ystadegau.** Ni roir enwau a chyfeiriadau ar y cyfrifiadur; y cod post yn unig a gofnodir. Cedwir y ffurflenni'n ddiogel yn fy Swyddfa a'u trin yn gyfrinachol am 100 mlynedd.

Bydd unrhyw un sy'n defnyddio neu'n datgelu gwybodaeth y Cyfrifiad yn amhriodol yn agored i'w erlyn. Er enghraifft, ni fyddai'n briodol i chi drosglwyddo gwybodaeth a roddwyd i chi yn gyfrinachol ar ffurflen unigolyn neu er mwyn llenwi ffurflen unigolyn, i rywun arall.

Diolch i chi am gydweithredu.

P J Wormald
Cofrestrydd Cyffredinol

Swyddfa Cyfrif ac Arolygu'r Boblogaeth
Blwch Post 100 Fareham PO16 0AL

Teleffon 0329-844444

## I'w lenwi gan y Cyfrifwr neu Swyddog y Tollau

Enw'r Sefydliad/Llong/Llong Ei Mawrhydi

Ar gyfer sefydliadau cyfunol: cyfeiriad y sefydliad

Cod post

Ar gyfer llongau heblaw Llongau Ei Mawrhydi: y porthladd cofrestru

Y lle y dosberthir y ffurflen, hynny yw: enw'r dref neu'r porthladd a'r harbwr, doc, glanfa, angorfa etc.

Enw'r meistr neu'r person sydd â gofal y llong

## I'w ddefnyddio gan y Cyfrifwr/Swyddfa'r Cyfrifiad

| Rhif Dosbarth Cyfrifiad | Rhif Dosbarth Cyfrifwr | Rhif y Ffurflen |
|---|---|---|
| | | |

## Cyfarwyddiadau

### Rhestru enwau

Rhestrwch enwau'r holl bersonau sy'n bresennol, yn unol â'r cyfarwyddiadau trosodd.

Cewch ddechrau llunio'r rhestr cyn diwrnod y Cyfrifiad, ond cyn casglu neu anfon y rhestr rhaid i chi ei diweddaru.

### Dosbarthu

Rhaid llenwi ffurflen Unigolyn (ffurflen I) ar gyfer pob person a restrir. Lle na fydd person yn gallu llenwi ffurflen, rhaid i chi drefnu llenwi ffurflen ar ei ran neu ar ei rhan.

Cyn dosbarthu pob ffurflen, nodwch enw'r sefydliad neu'r llong yn y panel ar y dde yng nghornel uchaf blaen y ffurflen Unigolyn (gellir defnyddio stamp rwber).

Byddwch cystal â rhoi amlen i unrhyw berson sy'n dymuno dychwelyd ffurflen mewn amlen sydd wedi'i selio.

**Yn achos sefydliadau cyfunol, nodwch y math o sefydliad isod.**

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, llenwch y datganiad trosodd a llofnodwch ef.

### Casglu ffurflenni

**Sefydliadau Cyfunol**

Byddwch cystal â threfnu bod yr holl ffurflenni'n barod i'w casglu gan y Cyfrifwr, a fydd yn galw ddydd Llun 22 Ebrill neu'n fuan wedyn.

**Llongau heblaw Llongau Ei Mawrhydi**

Byddwch cystal â threfnu bod yr holl ffurflenni'n barod i'w casglu gan y Cyfrifwr a fydd yn galw ddydd Llun 22 Ebrill, neu dychwelwch hwy i'r Cyfrifwr yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd wrth eu dosbarthu.

**Llongau Ei Mawrhydi**

Byddwch cystal ag anfon y ffurflenni a lenwyd cyn gynted â phosibl ar ôl 21 Ebrill i:

Swyddfa Cyfrif ac Arolygu'r Boblogaeth
Blwch Post 100 Fareham PO16 0AL

## Sefydliadau cyfunol: math o sefydliad

Rhowch **ddisgrifiad llawn o'r math o sefydliad** ac os yw'r sefydliad yn darparu ar gyfer grŵp neu grwpiau penodol, disgrifiwch hwy; *er enghraifft, salwch neu anfantais feddyliol, anfantais gorfforol, oedrannus, plant, myfyrwyr, nyrsys.*

### Ysbyty, cartrefi a hosteli'n unig

- **Nodwch y math o reolaeth:** *preifat, gwirfoddol (elusennol), llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, cymdeithas tai, awdurdod iechyd etc.*
- **Nodwch a yw'r sefydliad wedi'i gofrestru** gydag awdurdod lleol neu awdurdod iechyd.

### Gwestai neu letyai'n unig

Nodwch nifer yr ystafelloedd yn y sefydliad, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau lle na ddarperir prydau. Peidiwch â chyfrif ceginau, ystafelloedd ymolchi, WCs, ystafelloedd a ddefnyddir yn swyddfeydd neu'n storfeydd.

**Rhestrwch enwau pawb sy'n bresennol, hynny yw:**

pawb sy'n treulio noson y Cyfrifiad **21-22 Ebrill 1991** yn y sefydliad hwn neu ar fwrdd y llong hon; a phawb sy'n cyrraedd y sefydliad hwn neu sydd ar fwrdd y llong **ddydd Llun 22 Ebrill** cyn i'r ffurflenni gael eu casglu gan y Cyfrifwr (neu eu hanfon yn achos Llongau Ei Mawrhydi) ac a oedd ym Mhrydain Fawr ddydd Sul ond sydd heb eu cynnwys yn bresennol ar ffurflen Gyfrifiad arall.

Mewn sefydliadau cyfunol, peidiwch â chynnwys enwau unrhyw bersonél di-breswyl sy'n digwydd bod ar ddyletswydd ar y safle noson y Cyfrifiad.

**Rhowch tic yn y golofn gymwys wrth ddosbarthu pob ffurflen ac wrth ei chasglu.**

| Enw | Ffurflen **Unigolyn** Dosbarthwyd | Ffurflen **Unigolyn** Casglwyd |
|---|---|---|
| 1 | | |
| 2 | | |
| 3 | | |
| 4 | | |
| 5 | | |
| 6 | | |
| 7 | | |
| 8 | | |
| 9 | | |
| 10 | | |
| 11 | | |
| 12 | | |
| 13 | | |
| 14 | | |
| 15 | | |
| 16 | | |
| 17 | | |
| 18 | | |
| 19 | | |
| 20 | | |
| 21 | | |
| 22 | | |
| 23 | | |
| 24 | | |
| 25 | | |
| 26 | | |
| 27 | | |
| 28 | | |
| 29 | | |
| 30 | | |

| Enw | Ffurflen **Unigolyn** Dosbarthwyd | Ffurflen **Unigolyn** Casglwyd |
|---|---|---|
| 31 | | |
| 32 | | |
| 33 | | |
| 34 | | |
| 35 | | |
| 36 | | |
| 37 | | |
| 38 | | |
| 39 | | |
| 40 | | |
| 41 | | |
| 42 | | |
| 43 | | |
| 44 | | |
| 45 | | |
| 46 | | |
| 47 | | |
| 48 | | |
| 49 | | |
| 50 | | |
| 51 | | |
| 52 | | |
| 53 | | |
| 54 | | |
| 55 | | |
| 56 | | |
| 57 | | |
| 58 | | |
| 59 | | |
| 60 | | |

Nodwch gyfanswm y ffurflenni **Unigolyn** a gasglwyd ar y ffurflen L hon. [ ]

## Datganiad — Os defnyddir mwy nag un ffurflen 'L', llenwch y panel hwn ar y ffurflen gyntaf yn unig

Nodwch gyfanswm y ffurflenni **'L'** a lenwyd ar gyfer y sefydliad hwn/y llong hon. [ ]

Nodwch gyfanswm y ffurflenni **Unigolyn** a gasglwyd (cyfanswm yr holl ffurflenni L). [ ]

**Llofnod**

**Dyddiad** **Ebrill 1991**